# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell** **Ward: Cefn Glas**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 25**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cefn Glas ar 4 Mai 2016 ac eto ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwy'n gwneud Cymhorthfa Stryd bob deufis lle rwy'n curo drysau, yn cyflwyno fy hun a gweld a allaf fod o unrhyw gymorth.

Yn ogystal â chynnal Cymorthfeydd Cyngor ar y cyd gyda'r Aelod Seneddol o bryd i'w gilydd.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cynrychioli trigolion ar nifer o faterion megis y llwybr Teithio Llesol arfaethedig (llwybr beicio) ar hyd Merlin Crescent y gallaf gadarnhau ei fod wedi'i waredu ac na fydd yn mynd ymlaen fel cynnig mwyach.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau y bydd yr estyniad i Ysgol Gyfun Bryntirion yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a fydd yn galluogi mwy o blant lleol i fynychu ein hysgol gyfun leol.

Yn dilyn cwynion gan drigolion yn lleol, rwyf wedi gweithio gyda'r Heddlu a'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol i wneud Merlin Crescent yn barth Gan Bwyll. Mae hyn yn golygu y byddwch nawr yn gweld camera cyflymder symudol wedi'i osod yn Merlin Crescent a'r cyffiniau i ddal y rhai sy'n goryrru trwy ein cymuned.

Mae'r ddau barc chwarae ar Barnes Avenue a Choedlan Wordsworth wedi'u clustnodi i'w hadnewyddu fel rhan o addewid BCBC i adnewyddu ein holl feysydd chwarae a reolir gan y Cyngor Bwrdeistref dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae mwy o waith i'w wneud bob amser ac rwy'n teimlo'n freintiedig i gynrychioli ein cymuned bob dydd.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Rwyf hefyd yn cynrychioli trigolion ar Gyngor Cymuned Trelales lle rydym wedi gweithio i osod meinciau newydd, arddangosfeydd blodau, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb torri glaswellt.

Rwyf hefyd yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Fabanod Cefn Glas ac Ysgol Gyfun Bryntirion.

**Y Cynghorydd JPB** **Dyddiad: 08/07/2025**